

Evan Roberts – Y Llyfrbryf o Landderfel (2)

(Parhad o dudalen flaen)

Pan gyrhaeddodd Evan Roberts oed pensiwn y wladwriaeth, lluniodd John Cowper Powys gerdd iddo: *To my friend The Llandderfel Historian, Evan Roberts, On the occasion of his Old-Age Pension Day.*

This Moon our State enrolls
Thee too among our sires,
Who kindest souls in coals
Re-lightest from dead fire.

We Mabinogs depend
On thee to light the candles,
Which when our stories end
Become our glory's handles!

Without thee we'd scarce last
A day; and then we'd sink
Into the un-lit past
To drink at Lethe's brink.

If 'twere not for the Muse
Of History and for thee.
What boy, what girl would choose
In our poor shoes to be?

Yn ystod pedwardegau'r ganrif ddiwethaf daeth nifer o'i gyfeillion at ei gilydd i annog iddo roi cais am gydnabyddiaeth ariannol o'r Royal Literary Fund am ei holl waith dibris o dan y fath amgylchiadau. Yn ei eirida yn cefnogi'r cais, dywedodd Torwerth Peate: *'Despite desperate ill health which had made him an invalid and rendered him bedridden for considerable periods, he has maintained a steady output of literary work, principally in Welsh periodicals, which is astonishing both for its actual bulk and for his high quality. In the course of my work in the National Museum of Wales, I have found Mr. Roberts' writings on rural crafts, on harpists and on kindred subjects of the greatest value and on more than one occasion, I have in my own publications gladly acknowledge my indebtedness to his published work.'*


Yn ystod ei oes, fe gasglodd lyfrgell arbennig, yn cynnwys llawysgrifau prin a gwerthfawr ynghyd â chyfrolau prin, a deuai pobl o bob man i ofyn ei gymorth. Rydym ni'n ffodus tu hwnt iddo drosglwyddo'r rhan fwyaf o'i gasgliadau a'i lythyrau i'r Llyfrgell Genedlaethol.

Roedd gan Evan Roberts ddau o blant, Iegwyn ac Eiranwen. Bu ei wyres Nan yn agos iawn at ei thaid ac yn aml, pan oedd Evan Roberts yn yr ysbyty neu Gartref Gwellhad, câi lythyr personol ganddo yn ddi-ffael.

Bu Evan farw yng Nghysgod y Gaer, Corwen, ym mis Mai 1977, ac yntau o fewn tair wythnos i'w benblwydd yn gant oed

(Diolch i'w wyres Mrs Nan Jones, Coedpoeth, am ei chymorth a'i pharodrwydd i roi benthg dogfennau prin wrth lunio'r erthygl hon – Gol.)

Mel Williams



John Cowper Powys
– cyfaill Evan Roberts.

ADOLYGIAD Cofio Eurig

Parhad o dudalen 19

o'r atgofion ynghyd i greu cyfrol er cof ac fel teyrnged iddo.' Emyr Llewelyn Gruffudd, ei ffrind er dyddiau ysgol, a gafodd y fraint o gasglu'r atgofion at ei gilydd, ac yn ei gyflwyniad, dywed ei fod 'yn gasgliad o straeon amdano gan amrywiaeth eang o bobl oedd yn ei adnabod, a gafodd y pleser o gydweithio hefo fo, o gydymgyrchu hefo fo, ac o dreulio oriau difyr yn ei gwmini.'

Ac, yn wir, straeon difyr, llawn hwyl, a geir yma, straeon a oedd yn peri i mi chwerrthin yn uchel ac a'm cadwodd yn dynn wrth y llyfr am ddwy awr gyfan nes

i mi gyrraedd y diwedd. Yr hyn sy'n sefyll allan i mi yw hiwmor a dircidi Eirug Wyn, a'r holl driciau a chwaraeodd ar ei ffrindiau a'i gydnabod dros y blynyddoedd. Pan oedd yn ddisgybl yn Ysgol Brynrefail, ei athro Addysg Grefyddol oedd y Cyn-Archdderwydd Gwyndaf, a 'Pip' oedd y glas enw a roddwyd arno gan y disgyblion. Bu bron i'r athro 'chwythu gascet' pan ofynnodd Eirug Wyn iddo a gâi roi'r 'pip' yn y fased!

Ac yna, ei wraig, Gwenda, yn dweud yr hanes amdano'n 'troi pob un cloc yn y tŷ – gan gynnwys fy wats – yn ôl awr, gan fy ngwneud yn gynnar iawn i fy ngwaith un bore!'

Sonia Dwynwen, ei ferch hynaf, sut y byddai'n torri tost y plant yn siap tŷ bob bore, ac yn dysgu cerddi R. Williams Parry iddynt yn y bath gyda'r nos. Dwynwen, wedyn, yn ei gofio'n torri sosejis hefo siswrn i ginio yn Siop Pendref – 'Mae'r pethau sy'n fy atgoffa ohono mor eclectig a gwirion â fo'i hun.'

Mae'n siŵr bod darllenwyr *Y Casglwr* yn cofio iddo hysbysebu'n gyson yn y cylchgrawn, ac meddai Gwilym Tudur yn ei bwt o yn y gyfrol, 'Yn ôl John Roberts Williams, byddai'r hysbyseb yn cynnwys llyfr ffug bob tro, a'r Llyfrgell Brydeinig ag ati yn cynnig amdano.' 'Eirug Hael' yw teitl cyfraniad Ieuan Wyn. Pan grybwyllodd y Prifardd ei fod yn perthyn i Gweirydd ap Rhys, ymhen misoedd derbyniodd glamp o barsel yn cynnwys copiau o ddwy gyfrol *Hanes y Brytaniaid a'r Cymry*, a thu mewn i'r ddau lyfr y geiriau, 'Rhoddwyd i Ieuan Wyn, Hydref 30ain, 1976 (Dydd Protest Efailwen) yn cofnodi gwrthdystiad cyhoeddus cyntaf Adfer, yn galw am enwau lleoedd yn Gymraeg yn unig ar arwyddion ffyrdd'.

Ie, y Cenedlaetholwr, y dyn a deimlai mor angerddol dros ei iaith fel y mynnai lynnu y llythren D ar ei gar yn lle L, ac a werthodd watsys digidol â geiriau Cymraeg arnynt. Mae'r hanes i gyd yma!

Prynwch hi; darllenwch hi! Wnewch chi ddim 'difaru.

LIS WILLIAMS

CYMDEITHAS BOB OWEN

FFAIR LYFRAU

(Ail-law a Hynafiaethol)

Ysgol Penweddig, Aberystwyth

Dydd Sadwrn 23 Ebrill

10 y bore – 4 y prynhawn

Miloedd o lyfrau Cymraeg a Saesneg ar werth, yn ogystal â phrintiadau a hen fapiau.

Mynediad £1 (yn cynnwys te a choffi)

Agorir y ffair gan Lyn Lewis Dafis

Am fwy o fanylion cysylltwch â'r
Ysgrifennydd: (01079) 623174